# Asesiad Amgylcheddol Strategol
# Datganiad Sgrinio

# Cyfleusterau a Llety Twristiaeth

# Canllaw Cynllunio Atodol

**Mawrth 2021**

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

## 1. Cyflwyniad

1.1 Yn unol â'r Gyfarwyddeb Ewropeaidd 2001/42/EC sydd yn cael ei weithredu yn y DU drwy'r Rholiadau Asesiad Amgylcheddol o Gynlluniau a rhaglenni, hwn yw'r Penderfyniad Sgrinio o'r angen i ymgymeryd ag Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) o Ganllaw Cynllunio Atodol 'Cyfleusterau a Llety Twristiaeth'.

## 2. Asesiad Amgylcheddol Strategol

2.1 Amcan yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yw rhoi lefel uchel o warchodaeth i'r amgylchedd a chyfrannu at integreiddio ystyriaethau amgylcheddol wrth baratoi a mabwysiadu cynlluniau a rhaglenni, gyda'r bwriad o hyrwyddo datblygiad cynaliadwy.

2.2 Mae Rheoliadau AAS 2004 yn gosod goblygiad ar awdurdodau lleol i gynnal AAS ar gynlluniau neu brosiectau:

- Sy'n ofynnol ar gyfer cynllunio gwlad a thref neu ddefnydd tir; ac
- Sy'n gosod y fframwaith ar gyfer caniatâd datblygiadau i'r dyfodol o ran prosiectau sydd wedi'u rhestru yn Atodlen I neu II Cyfarwyddeb y Cyngor Ewropeaidd 85/337/EEC

2.3 Mae'r CCA yn gosod y fframwaith ar gyfer datblygu yn y dyfodol, ac fe allai hyn olygu y gellid ei ystyried fel 'cynllun' neu 'raglen' o fewn ystyr y Gyfarwyddeb AAS ac felly fe allai bod gofyn am 'asesiad amgylcheddol'. Mae'r rheoliadau'n cynghori y dylid defnyddio cyfres o feini prawf penodol (sydd wedi'u nodi yn Atodlen 1 y rheoliadau), i ddangos p'un a ddylai cynllun fod yn destun AAS. Mae'r meini prawf hyn wedi'u hystyried wrth bennu p'un a ddylai'r CCA fod yn destun AAS.

## 3. Cefndir i'r CCA Cyfleusterau a Llety Twristiaeth

3.1 Mae'r CCA 'Cyfleusterau a Llety Twristiaeth' yn berthnasol i ardaloedd Awdurdod Cynllunio Lleol Ynys Môn a Gwynedd, ac yn cefnogi ac yn ategu'r polisïau perthnasol sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd (CDLl ar y Cyd) a fabwysiadwyd ar 31 Gorffennaf 2017.

3.2 Mae'r CCA hwn yn rhoi arweiniad ynghylch datblygu pob ffurf a graddfa o lety gwyliau ac atyniadau twristiaeth. Mae twristiaeth yn chwarae rhan bwysig yn economi ardal y Cynllun. Mae Ynys Môn a Gwynedd yn elwa o asedau naturiol a diwylliannol eang sydd â photensial sylweddol i drigolion ac ymwelwyr eu mwynhau. Fodd bynnag, gall datblygiadau twristiaeth newydd effeithio'n negyddol ar amgylchedd a chymunedau lleol os cânt eu datblygu mewn modd ansensitif neu eu gosod mewn llefydd amhriodol. Nid yw'r CCA yn cyflwyno polisi newydd. Yn hytrach, pwrpas y Canllaw fydd cefnogi'r polisïau perthnasol yng Nghynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd.

## 4. Y Broses Sgrinio

4.1 Er nad yw'n ran o'r Cynllun Datblygu statudol, mae Canllawiau Cynllunio Atodol yn delio ag amrywiaeth o faterion, sydd yn gyffredinol yn dehongli polisïau sydd yn y Cynllun Datblygu. Os ystyrir, drwy'r broses sgrinio, nad yw'n debygol bydd y CCA yn cael effeithiau amgylcheddol arwyddocaol, yna gellid dod i'r casgliad na fydd AAS yn angenrheidiol.

4.2 Er mwyn asesu os oedd angen AAS, ymgymerodd yr Awdurdod Cyfrifol (Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd) broses sgrinio wedi ei seilio ar gyfres o feini prawf fel sydd wedi eu gosod yn Atodiad II o'r Gyfarwyddeb AAS. Mae'r meini prawf hyn wedi eu gosod allan yn y tabl yn Atodiad 1 o'r adroddiad hwn, ochr yn ochr ag ymateb y Cynghorau mewn perthynas a'r CCA.

4.3 Mae'r Rheoliadau AAS yn ei gwneud hi'n ofynnol i ymgynghori a'r cyrff statudol (sef Cyfoeth Naturiol Cymru a CADW) ar gynnwys yr asesiad sgrinio. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau gan CADW tra bo Cyfoeth Naturiol Cymru yn fodlon nad oedd AAS o'r Canllaw yn angenrheidiol.

4.4 Bu'r CCA Cyfleusterau a Llety Twristiaeth cyflawn yn destun ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 17 Mai a 27 Mehefin 2018, yna cynhaliwyd ymgynghoriadau pellach ar rannau penodol o'r Canllaw rhwng 13 Rhagfyr 2018 ac 31 Ionawr 2019 ac yna rhwng 16 Hydref i 27 Tachwedd 2020. Rhoddwyd ystyriaeth lawn i'r holl sylwadau a dderbyniwyd a diwygiwyd y Canllaw yn unol â hynny. Roedd y diwygiadau hyn yn darparu dehongliad pellach o'r Polisi er mwyn sicrhau y byddai'n cael ei weithredu'n gyson, ac nid oeddent yn arwain at newidiadau arwyddocaol yn y CCA. O ganlyniad, tybiwyd nad oeddent yn effeithio ar gasgliadau'r Asesiad Sgrinio.

## 5. Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

5.1 Yn ychwanegol i'r AAS, mae'n ofynnol i'r Cyngor i ystyried ymgymeryd ag Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC). Proses yw ARhC er mwyn pennu os yw cynllun neu brosiect yn debygol o gael effaith andwyol ar gyfanrwydd dynodiadau safleoedd rhyngwladol sydd yn bwysig o ran cadwraeth natur, a elwir yn safleoedd Ewropeaidd neu safleoedd Ewropeaidd morol. Mae'r angen am ARhC wedi ei nodi yn Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (a drawsosododd Cyfarwyddeb Cynefinoedd y DU 92/43/EEC).

5.2 Sgriniwyd y CCA yn unol â'r Rheoliadau Cynefinoedd a daethpwyd i'r casgliadau canlynol:

- Mae'r CCA yn bennaf yn ddogfen ganllaw ac ni ystyrir ei bod yn altro'r fframwaith polisi strategol.
- Nid yw'n cyflwyno polisïau neu gynigion newydd a'i unig ddiben yw ymhelaethu ar bolisïau presennol yn y CDLl ar y Cyd yn gysylltiedig â darparu pob ffurf a graddfa o lety gwyliau ac atyniadau twristiaeth.
- Mae polisïau perthnasol y CDLl ar y Cyd yn y CCA wedi bod yn destun ARhC yn barod.
- Nid yw'r CCA yn ddyraniad defnydd tir haearnaidd ond mae'n gosod cyd-destun cynllunio eang ac egwyddorion cynllunio sy'n gysylltiedig â datblygiadau twristiaeth.
- Nid yw'r CCA yn cyflwyno cynigion newydd o fath ac/neu ar raddfa sydd y tu allan i baramedrau'r CDLl ar y Cyd neu'n addasu unrhyw rai o'r mesurau lliniaru arfaethedig y cytunwyd arnynt.
- Prif effaith y CCA fydd hwyluso datblygiad cynaliadwy ledled Ardal y Cynllun. Mae'r Canllaw yn sicrhau bod datblygiadau twristiaeth yn ymgorffori egwyddorion cynaliadwyedd, gan gydbwyso'r angen i gefnogi'r economi wledig, tra'n cynnal ac yn cyfoethogi ansawdd amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol ardaloedd gwledig

5.3 Mae'r Cyngor yn casglu na fydd unrhyw effaith andwyol arwyddocaol ar gyfanrwydd y safleoedd Natura 2000 o ganlyniad uniongyrchol o'r CCA, ac felly, mae'n ystyried na fydd angen cynnal asesiad priodol llawn o'r CCA 'Cyfleusterau a Llety Twristiaeth' dan y Rheoliadau Cynefinoedd.

## 6. Datganiad o'r Rhesymau am y Penderfyniad

6.1 Ystyrir bod y CCA Cyfleusterau a Llety Twristiaeth yn annhebygol o gael effeithiau arwyddocaol ar yr amgylchedd. Nid yw'r CCA yn gosod unrhyw bolisïau neu ddyraniadau newydd nac yn diwygio polisïau yn y CDLl mabwysiedig. Yn hytrach, mae'n darparu canllawiau pellach ar bolisïau cyfredol yn CDLl ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd sydd wedi bod yn destun AAS.

6.2 Yn sgil casgliadau'r gwaith sgrinio a ymgymerwyd gan y Cynghorau, ynghyd a'r sylwadau a dderbyniwyd gan y cyrff statudol, penderfynir nad oes angen Asesiad Amgylcheddol Strategol o Ganllaw Cynllunio Atodol Cyfleusterau a Llety Twristiaeth.

**ATODIAD 1**

Mae’r tabl isod yn defnyddio'r meini prawf a gymerwyd o Atodlen 1 y Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004 i bennu p'un a yw'r CCA yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd

| **Meini Prawf y Gyfarwyddeb AS** | **Effeithiau Posib y CCA** | **A oes effaith arwyddocaol tebygol?** |
|---|---|---|
| ***1. Nodweddion cynlluniau a rhaglenni, gan roi ystyriaeth, yn benodol i:*** | | |
| 1.1 Y graddau y mae’r cynllun neu'r rhaglen yn gosod fframwaith ar gyfer prosiectau a gweithgareddau eraill, naill ai drwy roi ystyriaeth i leoliad, natur, maint ac amodau gweithredu neu drwy ddyrannu adnoddau. | Mae'r CCA yn bennaf yn ddogfen ganllaw ac ni ystyrir ei bod yn altro'r fframwaith polisi strategol. Nid yw'n cyflwyno polisïau neu gynigion newydd nac yn diwygio polisïau presennol yn y CDLl, a'i unig ddiben yw ymhelaethu ar bolisïau cyfredol yn y CDLl ar y Cyd mewn perthynas â datblygu cyfleusterau a llety twristiaeth. Mae'r fframwaith wedi'i osod eisoes gan y polisïau CDLl ar y Cyd mabwysiedig sydd wedi bod yn destun AAS yn barod. Nid yw'r CCA yn ddyraniad defnydd tir haearnaidd ond mae'n gosod cyd-destun cynllunio eang ac egwyddorion cynllunio sy'n gysylltiedig â datblygiadau twristiaeth o fewn cyd-destun Polisïau TWR 1 – TWR 5. | Na |
| 1.2 Y graddau y mae'r cynllun neu'r rhaglen yn dylanwadu ar gynlluniau a rhaglenni eraill, gan gynnwys rhai mewn hierarchaeth. | Pwrpas y CCA hwn yw rhoi arweiniad ar bolisïau mabwysiedig y CDLl ar y Cyd. Fel y cyfryw, ni fydd yn dylanwadu ar gynlluniau a rhaglenni eraill. Ni fydd ond yn darparu manylion ychwanegol pellach ac ni fydd yn cyflwyno polisïau newydd na diwygio polisïau mabwysiedig presennol. | Na |

| | | |
|---|---|---|
| 1.3 Perthnasedd y cynllun neu'r rhaglen ar gyfer integreiddio ystyriaeth amgylcheddol yn benodol gyda'r bwriad o hyrwyddo datblygiad cynaliadwy. | Mae'r CCA hwn yn rhoi arweiniad ynghylch datblygiad cynaliadwy cyfleusterau twristiaeth yn unol â'r CDLl ar y Cyd. Mae'r CCA yn cynorthwyo ymgeiswyr i ddeall ac i fod yn ymwybodol o'r polisïau perthnasol fydd yn integreiddio egwyddorion 'datblygiad cynaliadwy' i ddatblygiadau twristiaeth. Mae'r Canllaw yn sicrhau bod datblygiadau twristiaeth yn ymgorffori egwyddorion cynaliadwyedd, gan gydbwyso'r angen i gefnogi'r economi wledig, tra'n cynnal ac yn cyfoethogi ansawdd amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol ardaloedd gwledig. | Na |
| 1.4 Cynlluniau amgylcheddol sy'n berthnasol i'r cynllun neu'r rhaglen. | Ni fydd y CCA ei hun yn cael unrhyw effaith andwyol ar yr amgylchedd. Mae'r Canllaw'n sicrhau fod ystyriaethau amgylcheddol a thirwedd yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau twristiaeth. Tynnir sylw yn y CCA at bolisïau perthnasol yn y CDLl ar y Cyd fydd yn sicrhau nad yw'r amgylchedd yn cael ei effeithio'n andwyol gan ddatblygiadau twristiaeth. | Na |
| 1.5 Perthnasedd y cynllun neu'r rhaglen ar gyfer gweithredu deddfwriaeth Gymunedol ar yr amgylchedd (e.e. rheoli gwastraff neu amddiffyn dŵr). | Amherthnasol. Mae'r CCA yn ategu'r polisïau cynllunio mabwysiedig ac nid yw'n berthnasol i weithrediad deddfwriaeth gymunedol ar yr amgylchedd. | Na |
| ***2. Nodweddion yr effeithiau a'r ardal sy'n debygol o gael ei heffeithio, gan ystyried, yn benodol:*** | | |
| 2.1 Tebygolrwydd, hyd, amlder a rhwyddineb dadwneud yr effeithiau. | Ystyrir y bydd effeithiau gweithredu'r CCA yn bositif gan y bydd yn gymorth i liniaru yn erbyn unrhyw effeithiau andwyol cymdeithasol/amgylcheddol sy'n gysylltiedig â datblygiadau twristiaeth. | Na |

| | | |
|---|---|---|
| 2.2 Natur gronnus yr effeithiau. | Nodi effeithiau cronnus posib datblygiadau twristiaeth yn y Canllaw. | Na |
| 2.2 Natur draws-ffiniol yr effeithiau. | Ni ddefnyddir y CCA y tu hwnt i Ardaloedd Awdurdod Cynllunio Lleol Ynys Môn a Gwynedd. | Na |
| 2.4 Y risgiau i iechyd pobl neu i'r amgylchedd (e.e. yn sgil damweiniau). | Ni ystyrir y bydd y CCA yn peri risg i iechyd pobl nac i'r amgylchedd. Mae'r economi ymwelwyr yn darparu swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau sy'n hanfodol i lesiant a mwynhad cymunedau lleol a thrigolion yn ardal y Cynllun. | Na |
| 2.5 Ehangder a graddfa ofodol yr effeithiau (ardal ddaearyddol a maint y boblogaeth yn debygol o gael eu heffeithio). | Gan fod y CCA yn cefnogi polisïau yn y CDLl mabwysiedig mae'r CCA yn ymdrin ag ardaloedd Awdurdod Cynllunio Lleol Ynys Môn a Gwynedd ac yn bennaf yn cefnogi'r Awdurdodau Cynllunio i gael effaith bositif ar y boblogaeth sy'n trigo yn yr ardaloedd hyn. | Na |
| 2.6 Gwerth a bregrusrwydd yr ardal yn debygol o gael eu heffeithio yn sgil:<br>i) nodweddion naturiol arbennig neu dreftadaeth ddiwylliannol;<br>ii) Rhagori ar safonau ansawdd amgylcheddol neu gyfyngu ar eu gwerth;<br>iii) Defnydd tir dwys | Ystyrir na fydd y CCA yn cael unrhyw effeithiau ar ardaloedd sydd â gwerth iddynt / sy'n fregus. Bydd unrhyw geisiadau cynllunio'n cael eu hasesu yn erbyn y polisïau perthnasol cyn y rhoddir caniatâd cynllunio. | Na |
| 2.7 Effeithiau ar ardaloedd neu dirweddau sydd â statws gwarchodaeth cydnabyddedig cenedlaethol, Cymunedol neu ryngwladol. | Dim effaith. Mae'r Canllaw'n pwysleisio bod lleoliad y dirwedd, gosodiad y safle a sgrinio yn ystyriaethau pwysig wrth asesu cynigion twristiaeth. Mae'r polisïau y mae'r Canllawiau'n seiliedig arnynt (yn benodol polisïau TWR 1 – TWR 5) yn sicrhau fod yr holl ddatblygiadau twristiaeth arfaethedig o ansawdd uchel o ran dyluniad, gosodiad ac ymddangosiad. Nodir hefyd nad yw'r CCA yn dyrannu tir yn uniongyrchol ar gyfer datblygiad penodol. | Na |